


# RYDYM YN RECRIWTIO

## UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD







## Achubwr Bywyd (Gweinyddwr Hamdden)

### Gwybodaeth Hanfodol

Cyflog :£9.79 i £10.19 yr awr

Oriau : Mae amrywiaeth o oriau a mathau o gontractau ar gael, gyda hyfforddiant yn cael ei ddarparu i ymgeiswyr sydd heb y cymwysterau

Lleoliad : Oriau ar gael ym mhob safle, o Ganolfan Hamdden Huw Jones i'r Nova


### Am y Swydd

Mae ein Haelodau'n hoffi defnyddio'r pwll yn ystod y dydd a nos, 7 dydd yr wythnos. Gallwn fod yn hyblyg o fewn yr oriau hyn, felly gallwch chi benderfynu pa ddiwrnodau a shifftiau sydd fwyaf addas i chi. Rydym yn bwriadu llenwi rolau cytundebol a rolau achlysurol.

Fel Cynorthwydd Hamdden, byddwch yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn ddiogel wrth gael amser gwyh.

Os nad ydych eisoed wedi cymhwyso, byddwn yn eich hyfforddi i fod yn Achubwr Bywyd cymwys. Bydd angen i chi roi sylw manwl i bawb sy'n defnyddio'r parc dŵr, i wneud yn siŵr bod pawb yn ddiogel bob amser. Os bydd rhywun yn mynd i drwbl, bydd angen i chi fynd i mewn i'w hachub! Mae'n bwysig eich bod yn cymryd camau i atal peryglon hefyd, ac yn rheoli unrhyw ymddygiad afreolus a allai beryglu diogelwch eraill.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd yr ydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly byddem yn disgwyl i chi ymfalchïo yn y safle, gan sicrhau ei fod yn lân, yn daclus ac yn ddiogel i bawb ei ddefnyddio bob amser.



## Achubwr Bywyd (Gweinyddwr Hamdden)

### Amdanoch Chi


Byddwch yn unigolyn hyderus a chyfeillgar, gyda sgiliau pobl rhagorol a sylw gwych am fanylder.

Mae ein cwsmeriaid yn hynod bwysig i ni, felly mae angen rhywun sy'n gallu tawelu pobl, ac sydd ag awydd i wneud yn siŵr bod pawb yn cael profiad gwych bob amser. Mae'n bwysig iawn bod pawb yn ddiogel bob amser, felly bydd angen i chi fod yn hyderus wrth gymryd camau i atal unrhyw ymddygiad a allai fod yn risg i eraill, mewn modd cyfeillgar ond cadarn.

Yn ddelfrydol bydd gennych rywfaint o brofiad o weithio gyda chwsmeriaid, ynghyd â'ch NPLQ. Fodd bynnag, rydym yn hapus i'ch cefnogi i gyflawni'r cymhwyster hwn os nad oes gennych hwn eisoes, felly mae angen i chi fod yn nofiwr cryf. Rydym wrth ein bodd yn datblygu ein staff, felly mae awydd i ddysgu a datblygu yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Mae gennym ni gyrsiau NPLQ wedi'u hamserlennu ar gyfer mis Mai, i'w cynnal yn Hamdden Rhuthun, felly os nad ydych chi wedi cymhwyso eto, ond yn meddwl mai chi yw'r r math o berson rydyn ni'n chwilio amdano, byddwn ni'n eich cofrestru ar y cwrs hwn i'ch cymhwyso!

Os ydych chi'n berson brwdfrydig, gydag awydd i helpu eraill, ac eisiau gweithio mewn Cwmni cyflym a hynod lwyddiannus, yna gallai hwn fod yn berffaith i chi.



## Achubwr Bywyd (Gweinyddwr Hamdden)

### Amdanom ni


Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae Hamdden Sir Ddinbych wedi datblygu portffolio o gyfleusterau iechyd a ffitrwydd sy'n arwain y sector. Mae 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm ledled Sir Ddinbych yn cymharu â'r gorau yn y sector preifat, ac maent yn esiampl arbennig i weithredwyr hamdden ledled y DU.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydym yn un tîm, pob un yn gweithio gyda'n gilydd tuag at nod cyffredin ond yn gwerthfawrogi unigolrwydd pob unigolyn. Rydyn ni'n ymddiried, yn gofalu ac yn parchu ein gilydd, oherwydd rydyn ni'n credu bod hynny'n ein gwneud ni'n gryfach. Gyda'n gilydd rydym i gyd yn cyfrannu at wneud Hamdden Sir Ddinbych yn llwyddiannus.

- Byddwn yn sefyll yn ôl ein hegwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom bob amser i wneud yr hyn sy'n iawn fel eu cyflogwr, a'u gwneud yn falch.
- Ni fyddwn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn dod yn gryfach ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i'n cwsmeriaid.





## Achubwr Bywyd (Gweinyddwr Hamdden)

### Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr Denbighshire Leisure Ltd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 25 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisiâu teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Dyddiad Cau: 22 Mawrth 2022

Gwnewch gais drwy: ebostio eich CV i [People@denbighshireleisure.co.uk](mailto:People@denbighshireleisure.co.uk)